Bwrdd Trafnidiaeth Cymru

Cofnodion cyfarfod 21 Mai 2026

Cynhaliwyd yn Llys Cadwyn, Pontypridd

Aelodau:	
Vernon Everitt	Aelod Anweithredol a Chadeirydd
Heather Clash	Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol
Rhian Langham	Aelod anweithredol
James Price	Prif Swyddog Gweithredol
Marcia Sinfield	Aelod anweithredol
Hefyd yn bresennol:	
Sam Hadley	Cyfarwyddwr Polisi
Ian Lucas	Aelod anweithredol cyswllt
Jeremy Morgan	Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethiant Corfforaethol
Ceri Taylor	Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
Lorenzo Visentin	Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitemau 1 i 3)
Lee Robinson	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (Eitem 9)
Peter McDonald	Sylwedydd (Llywodraeth Cymru) (Eitem 13)

1. Croeso, ymddiheuriadau, cworwm, datganiadau a chofnodion blaenorol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Vinay Parmar, Peter Strachan ac Andrew Morgan.

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2026 yn gofnod cywir. Nododd y Bwrdd y log camau gweithredu a chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y ddau gam gweithredu agored a oedd yn weddill.

2. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid

Ystyriodd y Bwrdd gwsmeriaid a diogelwch drwy ganolbwyntio ar wydnwch ac ymateb cwsmeriaid yn ystod amhariadau yn seiliedig ar ddigwyddiad dramor lle'r oedd colli cysylltedd yn atal prynu tocynnau. Trafododd y Bwrdd y goblygiadau ar gyfer parhad busnes a gweithrediadau gorsafoedd mewn amgylchiadau tebyg. Cytunwyd y dylid adolygu cynlluniau parhad busnes ac egwyddorion technoleg os bydd technoleg yn methu [**Cam gweithredu Heather Clash**].

Myfyriodd y Bwrdd hefyd ar fethiant diweddar un o wasanaethau TrC a nododd ymateb cadarnhaol timau TrC i'r digwyddiad yn wahanol i'r gwasanaeth a gafwyd gan weithredwyr eraill. Myfyriodd y Bwrdd ar bwysigrwydd blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid a chydweithwyr wrth ymateb i darfu ar weithrediadau.

3. Perfformiad diogelwch

Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod gan gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad diogelwch. Nododd y Bwrdd berfformiad cadarnhaol cyffredinol a chroesawodd y gwelliant parhaus ar draws nifer o ddangosyddion diogelwch allweddol.

Nododd y Bwrdd fod digwyddiadau Pasio Signalau Stop (SPaD) yng Nghyfnodau 12 ac 13 2025/26 wedi bod yr isaf ers cyn y pandemig, er bod tri SPaD wedi digwydd yng Nghyfnod 1 2026/27. Nododd y Bwrdd fod digwyddiadau Systemau Rhybuddio a Gwarchod Trenau (TWPS) yn parhau i fod o fewn y ffigurau disgwyliedig.

Nododd y Bwrdd y gostyngiad mewn ymosodiadau corfforol ar staff o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, croesawodd effaith mesurau ataliol, a gofynnodd i adroddiadau diogelwch yn y dyfodol wahaniaethu'n glir rhwng data wedi'i ddilysu a'r wybodaeth reoli ddiweddaraf sydd ar gael.

Trafododd y Bwrdd faterion diogelwch hefyd, gan gynnwys hysbysiadau gwahardd rheilffyrdd; llesiant cydweithwyr yn dilyn digwyddiadau gweithredol; a gwydnwch seiber. Gofynnodd yr aelodau am ragor o sicrwydd ynghylch gwydnwch y rhwydwaith a nodwyd y byddai plismona ar y rhwydwaith yn cael ei ddwyn yn ôl i gael trafodaeth lawnach yn y cyfarfod nesaf.

Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ganlyniadau etholiadau diweddar y Senedd, cynnydd mewn trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol rhwng Great British Railways a Network Rail, a'r goblygiadau i rôl TrC o ran darparu a blaenoriaethu gwasanaethau rheilffyrdd ac o ran buddsoddi mewn seilwaith.

Trafododd y Bwrdd berfformiad rheilffyrdd, gan gynnwys yr angen am ddealltwriaeth ddyfnach o brofiad cwsmeriaid ar wasanaethau gogledd-de a phwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion teithwyr anabl drwy ddull system gyfan.

Nododd yr aelodau hefyd bwysigrwydd parhaus dibynadwyedd Dosbarth 197 gan gynnwys yr angen i drosi unedau nad ydynt yn rhan o'r System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewropeaidd (ERTMS) yn unedau ERTMS; y bwriad i gyflwyno trenau Dosbarth 398 fesul cam; a chynnydd gyda'r rhaglen bysiau.

Ystyriodd y Bwrdd berfformiad refeniw, gan nodi refeniw teithwyr cryfach na'r disgwyl a thwf teithiau yng Nghyfnod 1 2026/27, a chytunodd y dylid rhoi gwybod am y sefyllfa gadarnhaol hon [**Gweithredu Lewis Brencher**].

Trafododd y Bwrdd hefyd deithio heb docyn a'r risgiau sy'n gysylltiedig â negeseuon cymysg o ran y polisi plant yn cael teithio am ddim pan fydd oedolyn gyda nhw, a phwysigrwydd negeseuon clir [**Cam Gweithredu Lewis Brencher**]. Gofynnodd y Bwrdd am drafodaeth bellach rhwng y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg gan osod risgiau diogelwch yn yr adroddiadau risg corfforaethol ehangach cyffredinol.

6. Meysydd ffocws y Bwrdd ac amcanion y Prif Swyddog Gweithredol 2026/27

Adolygodd y Bwrdd ei feysydd ffocws ar gyfer gweddill 2026/27 a chytunodd y dylid mapio'r rhain yn glir i waith is-bwyllgorau'r Bwrdd, y fframwaith risg strategol a'r dirwedd llywodraethiant ehangach. Cytunwyd ymhellach y dylid trefnu'r meysydd ffocws yn fwy systematig drwy agenda'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol [**Cam Gweithredu Jeremy Morgan**].

Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd cryfhau'r ffocws ar barhad busnes, gwydnwch a seiberddiogelwch dan y thema bresennol o fod yn ddiogel ac yn wydn, a chytunodd y dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid barhau a dyfnhau gyda rhanbarthau, cymunedau lleol a busnesau lleol.

Yn amodol ar fân ddiwygiadau, trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd amcanion y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer 2026/27. Canolbwyntiodd y Bwrdd ei drafodaeth ar berfformiad gwasanaeth, gallu i arwain ac olyniaeth, gan nodi pwysigrwydd 'cryfder mainc' yn y Tîm Arwain Gweithredol. Byddai'r Bwrdd hefyd yn goruchwylio ymgysylltu mewnol a datblygu rheolwyr. Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Prif Swyddog Gweithredol i gadarnhau amcanion 2026/27 (Cam gweithredu wedi'i gwblhau).

7. Llywodraethiant

Cafodd y Bwrdd adborth o gyfarfodydd diweddar Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru/TrC, yr is-fyrddau a'r Is-bwyllgorau. Nododd yr aelodau ddatblygiadau cadarnhaol ar draws y grŵp, gan gynnwys annog perfformiad gweithredol mewn sawl maes. Gofynnodd y Bwrdd am gyfleu ei ddiolch i'r timau a gynlluniodd ac a weithredodd Talu wrth Fynd yn llwyddiannus ar y rhwydwaith rheilffyrdd a'r amserlen newydd yng Ngogledd Cymru, sydd wedi arwain at berfformiad da. Nododd y Bwrdd hefyd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gryfhau safbwynt cwsmeriaid ar y bwrdd Ffeibr.

8. Dangosyddion perfformiad allweddol

Adolygodd y Bwrdd y dangosyddion perfformiad allweddol diweddaraf a nododd, er bod y rhan fwyaf o'r targedau wedi cael eu cyrraedd, nad oedd perfformiad wedi cyrraedd y targed mewn perthynas â siwrneiau teithwyr a refeniw a oedd yn dal yn sylweddol uwch o un flwyddyn i'r llall ond yn is na'r targed ymestyn a chansladau. Trafododd yr aelodau hefyd y metrig digwyddiadau diogelwch fesul 1,000 o deithiau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod nad oedd y fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol yn adlewyrchu ehangder gweithgareddau TrC yn llawn eto, a nododd y byddai cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion yn cael eu cyflwyno cyn bo hir. Gofynnodd y Bwrdd am roi ystyriaeth bellach i fesurau sy'n ymwneud â phobl [**Cam Gweithredu James Price ac Elle Elliott**] ac am naratif clir ynghylch sut mae'r broses cynllunio busnes a chorfforaethol yn cyd-fynd â'r broses adrodd [**Cam Gweithredu Zoe Smith-Doe]**.

Nododd y Bwrdd gynnydd yn erbyn cerrig milltir y cynllun busnes, gan bwysleisio y dylai'r cynllun busnes nesaf gyd-fynd yn fwy penodol â'r Strategaeth Gorfforaethol a darparu set gliriach o flaenoriaethau sefydliadol.

9. Pullman

Ymunodd Alexia Course, Mark Parker ac Owen Davies â'r cyfarfod. Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am Pullman a oedd yn canolbwyntio ar sefyllfa adfer y cwmni a nododd dystiolaeth o welliant cynnar, gan gydnabod y byddai ailosod y diwylliant a'r busnes yn ehangach yn cymryd amser i'w gyflawni.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

12. Adroddiad Statws Iechyd y Rhaglen Masnachfreinio Bysiau

Ymunodd Robert Montgomery â'r cyfarfod. Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am statws y Rhaglen Masnachfreinio Bysiau a nododd, er bod adroddiad y rhaglen yn cynnwys llawer iawn o weithgarwch ar y gyfradd goch, bod y sgoriau coch yn cyfeirio'n bennaf at statws penderfyniadau yn hytrach na pharodrwydd y rhaglen. [redacted]

[redacted]

Gadawodd Lee Robinson, Robert Montgomery, Owen Davies a Richard Marwood y cyfarfod.

13. Elfennau i'w cyflawni gan y Llywodraeth

Ymunodd Rob Holmes a Peter McDonald â'r cyfarfod. Dywedwyd wrth y Bwrdd y dylai ddisgwyl y byddai cylch gwaith sy'n dod i'r amlwg yn cyfuno set o flaenoriaethau tymor byr uniongyrchol a disgwyliadau tymor hwy ar wahân, gyda phwyslais penodol ar ddangos sut mae trafnidiaeth yn cyfrannu at bum maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Nododd y Bwrdd fod disgwyl llythyr at y Cadeirydd maes o law. Nododd y Bwrdd hefyd berthnasedd blaenoriaethau cynnar y llywodraeth, gan gynnwys gwasanaethau bws rhwng y gogledd a'r de, prisiau a materion cyllid canlyniadol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.